

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD  
DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dŵr a Rhywogaethau Estron mewn  
Dyframaethu (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 13 Tachwedd 2018*

**Sifftio**

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Negyddol arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	27 Tachwedd 2018
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Yr wythnos yn dechrau 26 Tachwedd 2018
Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	28 Tachwedd 2018
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 20
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

**Gweithdrefn graffu**

Canlyniad y broses sifftio	Anhysbys
Y weithdrefn	Negyddol neu Gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

**Sylwadau**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau i ddwy gyfres bresennol o Rheoliadau Cymru a Lloegr sy'n ymwneud â gofynion iechyd anifeiliaid ar gyfer anifeiliaid a chynhyrchion dyframaethu a chofrestru busnesau dyframaethu. Effaith y Rheoliadau y bwriedir eu gwneud nawr yw dileu pŵer swyddogion yr UE i archwilio adeiladau'r DU a / neu i fynd gydag arolygwyr. Maent hefyd yn disodli cyfeiriadau at glefydau a geir mewn un Cyfarwyddeb UE benodol â rhestr a geir mewn Rheoliad yr UE. Bydd yr olaf yn rhan o gyfraith a ddargedwir yr UE, ac ni fydd y cyntaf.

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 16 Tachwedd 2018, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac yn nodi i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu o ran polisi newydd yn y meysydd datganoledig.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol dros geisio cynnig caniatâd o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.